**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held**
**at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2017 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor M. Powell (Chairman)
County Councillor P. Clarke (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, D. Blakebrough, V. Smith, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, D. Evans, R.J.W. Greenland, L. Guppy, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Watts, A. Webb, K. Williams, J.Becker, L.Dymock, M.Groucutt, R.John, L.Jones, M.Lane, P.Pavia, J.Pratt, R.Roden, T.Thomas, J.Treharne, J.Watkins and S. Woodhouse

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

County Councillors P.A. Fox, S.B. Jones, L.Brown, A.Davies and M.Feakins

**2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw faterion ar gyfer y fforwm agored gyhoeddus.
.

**3. Cyhoeddiad Cadeirydd a derbyn deisebau**

Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor yn dilyn marwolaeth Carl Sargeant, Gweinidog Llafur Cymru. Hefyd clywsom am golled drist cydweithiwr ar Gyngor Sir Fynwy, Mr. Gary Price. Cynhaliwyd munud o dawelwch ar gyfer y ddau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir R. Greenland ddeiseb ar ran preswylwyr Devauden yn cyfeirio at ymestyn y terfyn amser 30 mya. Cydnabyddwn y nifer o ddeisebau mae'r Cyngor yn eu derbyn am faterion goryrru, a chytuno bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn ar draws y Sir.

**4. Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir L. Guppy fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yng nghyswllt eitem 8.2, 8.3, 8.4 fel aelod o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Datganodd y Cynghorydd Sir M. Powell fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yng nghyswllt Eitem 8.4 fel Llywodraethwr Ysgol Brenin Harri VIII.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Cyngor y Sir a'i gynhaliwyd ar y 21ain o Fedi 2017**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2017 at 2.00 pm**

Cadarnhaodd y Cyngor gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Medi a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny nododd y Cynghorydd Clarke fod ei gyfnod fel cynrychiolydd ar Gymdeithas Tai Sir Fynwy wedi dod i ben. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Batrouni yn cymryd y swydd hon dros dro.

**6. I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio**

**6.1. 6ed o Orffennaf 2017**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017

**6.2. 19eg o Fedi 2017**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017.

**7. I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratig**

**7.1. 5ed o Fehefin 2017**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2017.

**7.2. 11eg o Fedi 2017**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017.

Gofynnodd y Cynghorydd Howarth am eglurhad am fater offer technoleg gwybodaeth newydd ar gyfer Aelodau. Bydd y Prif Weithredwr yn ymateb mewn ysgrifen.

**8. Rhestr o Gynigion**

**8.1. Cynnig gan y Cynghorydd Sir M. Groucutt**

*Mae Cyngor Sir Fynwy yn llongyfarch ac yn cefnogi ymdrechion presennol pobl leol yn ardal y Fenni sy'n ymgyrchu dros fynediad llawn i'r platfformau yng ngorsaf rheilffordd y Fenni. Mae'n credu ei bod yn gywilyddus yn 2017 nad yw hynny ar gael i bobl gydag anabledd corfforol, yr henoed, rhieni gyda phlant ifanc mewn cadeiriau gwthio, neu deithwyr gyda phaciau trwm. Geilw'r Cyngor ar Network Rail a Threnau Arriva Cymru i sicrhau mynediad llawn o'r fath fel mater o frys. Geilw ar y rhai sy'n gyfrifol i sicrhau y caiff cyllid digonol ei neilltuo i greu cyfleusterau fydd yn galluogi pob teithiwr i gael mynediad rhydd i bob rhan o'r orsaf yn ystod oriau agor fel mater o'r flaenoriaeth uchaf.*

Cariwyd y cynnig yn dilyn trafodaeth.

**8.2. Cynnig o'r Cynghorydd Sir A. Easson a'r Cynghorydd Sir P. Pavia**

Cytunodd y Cadeirydd gymryd Cynnig 8.2 a 8.3 gyda'i gilydd ar gyfer trafodaeth:

**Cynnig gan y Cynghorydd Sir Easson:**

*Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi dechrau ymgynghori am ddyfodol Gwasanaethau Oedolion ledled Gwent. Yr awgrym yw canoli gofal dementia i ysbytai ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd ac uned yn Nhorfaen; ar ôl comisiynu Ysbyty'r Grange yn 2021. Byddai hyn yn awgrymu cau Ward St Pierre yn Ysbyty Cas-gwent a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer gofal dementia. Byddai cefnogaeth ar gyfer gofal dementia yng ngogledd Sir Fynwy yn Ysbyty'r Tri Chwm yng Nglynebwy ac yn y de yn St Woolos yng Nghasnewydd. Cynigiaf fod y Cyngor hwn yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a*

*Chyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan i ganfod ffyrdd cadarnhaol ac arloesol o dynnu'r bygythiad hwn i Ysbyty Cas-gwent sydd â 10 mlynedd o'r cynllun PFI i gwblhau'r contract, ac y dylai defnydd y cyfleuster hwn gael ei gynyddu ac nid ei ostwng."*

**Cynnig gan y Cynghorydd Sir Pavia:**
*Mae Cyngor Sir Fynwy yn deall yr heriau demograffig sy'n wynebu'r sir dros y degawdau nesaf. Mae'n cydnabod y bydd y cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn anochel yn rhoi mwy o ofynion ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod poblogaeth sy'n heneiddio yn fwy tebygol o fod ag o leiaf un ac yn aml gyflyrau cronig lluosog fel dementia. Felly, mae'n bryderus am gynigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ailgynllunio gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn, a allai o bosibl olygu cau ward dementia St. Pierre yn Ysbyty Cas-gwent a throsglwyddo cleifion i Ysbyty'r Tri Chwm yng Nglynebwy a St Woolas yng Nghasnewydd.*
*Geilw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i:*
*1. Ddechrau ar ymgysylltu 'cadarn ac ystyrlon' gyda chleifion, rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn Sir Fynwy, parthed ei gynigion ail-ddylunio a gwrando ar bryderon priodol y bydd unrhyw drosglwyddo gofal tu allan i'r sir yn naturiol yn ei gynhyrchu;*
*2. Cwrdd yn rheolaidd gyda'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd ac uwch swyddogion, i ymchwilio modelau newydd, a gyd-gynhyrchwyd a chynaliadwy o ofal ar gyfer oedolion hŷn gydag afiechyd meddwl, fel rhan o brif gynllun strategol y Cyngor i ddarparu gofal cymdeithasol integredig ansawdd da ym mhob rhan o'r sir.*

Eiliwyd y cynnig.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd fod y Cyngor yn ymgyngoreion yn yr ymgynghoriad tri mis, ac y bydd yn cymryd rhan lawn a phenderfynol i gyflwyno'r achos dros y gwasanaethau gorau posibl ar gyfer pobl Sir Fynwy.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn ymateb.

Yn nhermau proses fe'n hysbyswyd y bu'r adroddiad drwy'r Pwyllgor Dethol, yn ogystal â'r Cyngor. Mae seminar i Aelodau ar 16 Tachwedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i drafod cynigion. Cafodd aelodau eu hannog i fynychu.

Awgrymodd Aelod Cabinet Menter ychwanegu cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at agendâu'r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau fod Aelodau'n hollol ymwybodol am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cydnabuwyd fod Cadeirydd blaenorol Pwyllgor Dethol Oedolion wedi bod mewn llawer o gysylltiad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a chytunwyd y dylid gwahodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol Oedolion.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais, a chafodd ei gario

**8.4. Cynnig o'r Cynghorydd Sir D. Batrouni**
*Bod y Cyngor hwn yn bryderus nad yw'r toriadau gwir dermau a osodwyd ar ysgolion yn Sir Fynwy am y pedair blynedd ddiwethaf yn gynaliadwy; y gallai'r toriadau hyn arwain at ostyngiadau staff a llesteirio perfformiad yr ysgolion hynny; ac mae felly'n gwneud ymrwymiad i atal y toriadau parhaus hyn ac yn lle hynny i gynyddu cyfanswm y gyllideb addysg ar gyfer 2018/19 gan o leiaf £1m i helpu lliniaru pwysau ariannol cyfredol. Bydd y grŵp Llafur yn gweithio gyda phob aelod etholedig i ddod â'r cynnig hwn i ffrwyth.*

Eiliwyd y cynnig.

Ymatebodd Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc drwy ddweud fod heriau ariannol sylweddol yn wynebu'r awdurdod a dywedodd mai Sir Fynwy yw'r awdurdod sy'n derbyn y setliad cyllid gwaethaf yng Nghymru. Roedd siom nad yw materion gwledig yn dal i gael eu cydnabod yn nhermau cyllid.

Mewn trafodaeth:

Dywedodd y Cynghorydd Blakebrough y dylem fynd yn ôl at Lywodraeth Cymru yng nghyswllt cyllid, ond dylai hefyd ystyried yr hyn y gallwn ei wneud fel awdurdod lleol, megis buddsoddi arian i gario'r ysgolion drwy'r amser heriol hwn. A allwn godi'r dreth cyngor am eleni i gynnwys cyllid ychwanegol i ysgolion?

Roedd y Cynghorydd Groucutt yn falch i eilio'r cynnig a chanmolodd yr athrawon a staff ar eu canlyniadau ardderchog. Wrth edrych ar ystadegau'r gwasanaeth cynghori, roedd yn glir fod safonau'n codi ar draws pob rhan o dde ddwyrain Cymru.

*Gadawodd y Cynghorydd Becker y cyfarfod am 15:35*

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Taylor welliant i'r Cynnig:

*Bod y Cyngor hwn yn bryderus nad yw'r toriadau mewn gwir dermau a osodwyd ar ysgolion yn Sir Fynwy am y pedair blynedd diwethaf yn gynaliadwy.* ***Bod y Cyngor hwn yn calibradu'n llawn ac yn asesu'r risgiau i brofiad addysgol ein plant. Yn neilltuol faterion o fynediad, safonau a deilliannau ar gyfer pob dysgwr a bod y Cyngor hwn yn cymryd camau priodol yn cynnwys, os oes angen, ailgalibreiddio'r gyllideb.***

Yn dilyn trafodaeth ar y cynnig gyda'r gwelliant, a chael ei roi i bleidlais, cafodd y cynnig ei drechu.

Parhaodd aelodau i drafod y cynnig sylweddol. Pan gafodd ei roi i bleidlais cafodd y cynnig ei drechu.

**8.5. Cynnig o'r Cynghorydd Sir D. Batrouni**

*Bod y Cyngor hwn yn gresynu at y broses lle cyflwynwyd penderfyniad ar ddyfodol dwy ysgol gynradd yn Sir Fynwy i Lywodraeth Cymru heb unrhyw ymgynghoriad gyda'r cyngor llawn, y Cabinet na'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc, gan gredu ei fod yn gosod cynsail pryderus lle na chaiff aelodau lleol, yn arbennig aelodau Cas-gwent yn yr achos yma, eu hysbysu am benderfyniadau mawr sy'n effeithio ar eu preswylwyr; pryderon am y canlynaidau ar gyfer Ysgol Cas-gwent; ac yn credu na chafodd pob opsiwn eu hymchwilio fel canlyniad.*

Eiliwyd y cynnig.

Eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r model buddsoddiad cydfuddiannol (MIM) yn golygu y byddai angen cynyddu buddsoddiad yn sylweddol a phenderfynwyd peidio symud ymlaen gyda'r MIM oherwydd nifer o gyfyngiadau.

Nodwyd y bu cyfleoedd i alw'r penderfyniad i mewn ond na ddigwyddodd hynny. Mewn ymateb i gwestiwn pam na ddaeth hyn i'r Cyngor i'w drafod yn llawn, dywedodd y Swyddog Monitro fod hwn yn benderfyniad a gymerwyd dan swyddogaeth y Cabinet.

Ar gael ei roi i bleidlais, trechwyd y cynnig.

*Gadawodd y Cynghorydd Blakebrough a'r Cynghorydd Watts y cyfarfod am 17:10.*

## 9. Adroddiadau'r Prif Swyddog, Enterprise

### 9.1. Presenoldeb o Bell am gyfarfodydd Cyngor

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor er mwyn ystyried newidiadau i'r cyfansoddiad fyddai'n galluogi Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.

Trafododd Aelodau yr agweddau cadarnhaol megis rhoi cyfle i Aelodau gydag ymrwymiadau eraill i fynychu; bod Cyngor Sir Fynwy yn gyngor sy'n arloesi; mae'n debygol mai dim ond dim ond i ychydig o Aelodau y byddai aelodaeth o bell yn weithredol a byddai'r rhan fwyaf o ddigon yn mynychu'n bresennol.

Nodwyd pwyntiau negyddol yn cynnwys materion technegol a chworwm cyfarfodydd a byddent yn cael eu datrys.

Mewn pleidlais, cytunodd Aelodau i gytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

I fabwysiadu'r newidiadau i reolau 8 a 9 y Rheolau Sefydlog yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y'u manylir yn atodiad 3 yr adroddiad fel y bydd y cyngor yn caniatau presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd o'r cyngor, ei bwyllgorau ac unrhyw gyfarfod arall o'r cyngor lle mae'r dechnoleg ar gael yn yr ystafell gyfarfod.

Diwygiwyd Paragraff 1.9 Rheolau Gweithdrefn Gweithredol yn y Cyfansoddiad i ganiatau presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Cabinet.

### 9.2. Amseru cyfarfodydd Cyngor

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i ystyried yr argymhelliad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn unol gyda Mesur Llywodraeth Leol Cymru, i adolygu amseriad cyfarfodydd llawn y Cyngor ar gyfer cyfnod presennol y Cyngor.

Ychwanegodd Aelod y Cabinet y caiff 10am hefyd ei ystyried fel opsiwn. Mewn pleidlais, cytunodd yr Aelodau y dylid ystyried 10am, 2pm a 5pm mewn cylch fel amserau ar gyfer y Cyngor.

Nodwyd pwysigrwydd canfod yr amser gorau i ddenu aelodau o'r cyhoedd i ymgysylltu a hyrwyddo hyblygrwydd.

Mewn pleidlais, cytunodd Aelodau i gytuno ar yr argymhelliad:

Bod cyfarfodydd y Cyngor llawn yn y dyfodol yn newid amserau cychwyn rhwng 10:00, 14:00 a 17:00 am gyfnod 12 mis, ac wedi hynny bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu'r newid mewn amserau ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor gydag argymhellion pellach.

## 10. Adroddiad Pennaeth Gweithrediadau

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2017 at 2.00 pm**

**10.1. Adroddiad Ailgylchu - Achos Busnes Terfynol, cymeradwyaeth gwariant cyfalaf ar gerbydau a bocsys**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor yn rhoi manylion yr achos busnes llawn ar gyfer yr Adolygiad Gwastraff ac Ailgylchu a adroddwyd i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2017, i gynghori Aelodau am holl oblygiadau refeniw y gwasanaeth newydd a cheisio cymeradwyaeth i greu cyllideb cyfalaf ar gyfer caffael cerbydau yn 2017/18.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth:

Mae newid yn natur y diwydiant a sut maent eisiau i'r eitem gael eu cyflenwi, ac felly newidiadau yn y ffordd y cyflenwn y gwasanaeth. Mae eisiau gwydr brwnt yn awr fel cynnyrch glân.

Mewn ymateb i gwestiwn am faint cerbydau a'r problemau y gallant eu hachosi, clywsom y cafodd cerbyd ei adeiladu'n bwrpasol ar gyfer y prawf ac y defnyddir cerbydau llai lle bo angen. Gellir defnyddio 95% o ffyrdd gyda chassis safonol. Sefydlwyd llwybrau gyda gyrwyr ac mae swyddogion yn hyderus fod y cerbydau a'r llwybrau yn addas ar gyfer y gwasanaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Howarth i breswylwyr Sir Fynwy am gyrraedd y targed ailgylchu. Holodd pam nad oedd y Pwyllgor Dethol wedi craffu ar yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw am y cynnydd yn nifer y cerbydau, ychwanegodd y Pennaeth Gweithrediadau y byddai angen y cerbydau newydd beth bynnag yw canlyniad y drafodaeth.

*Gadawodd y Cynghorydd M Powell y cyfarfod am 17:50*

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

Bod Aelodau'n derbyn ac yn cymeradwyo'r achos busnes terfynol a'r crynodeb o'r Adolygiad Gwastraff ac Ailgylchu (atodiad 1).

Ceisio cymeradwyaeth am gyllideb cyfalaf o £4.27m i gyllido caffael cerbydau ailgylchu a blychau sydd eu hangen i weithredu'r Adolygiad Ailgylchu fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2017.

Ceisio cymeradwyaeth am gyllid 'buddsoddi i gynilo' ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth newydd.

*Councillor M. Powell left the meeting at 17:50*

## 11. Cwestiynau Aelodau

**11.1. O'r Cynghorydd Sir P. Pavia i'r Cynghorydd Sir R. John. John**

*A fydd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn rhoi diweddariad ar weithgareddau'r Grŵp Cyfeirio Allanol a sefydlwyd gan y Cyngor yn dilyn arolwg Estyn o'r awdurdod yn 2015?*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet:

Mae'r grŵp cyfeirio allanol yn parhau i roi cyngor ac arweiniad i'r Awdurdod yn dilyn y craffu dwys yn ystod adferiad Estyn. Mae gan y bwrdd gylch gorchwyl estynedig ac mae'n cynnwys pob maes o Wasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Edrychodd adolygiad o adroddiad y Prif Swyddogion ar gyfer SCH a Phlant a Phobl Ifanc ar heriau hunanarfarnu, cynnig cefnogaeth ym mha mor dda yr ydym yn adnabod ein hysgolion, a chynnig cyngor ar gamau i'w cymryd yn y dyfodol. Fe wnaeth hefyd drafod cynnydd mewn Gwasanaethau Plant yn nhermau diwygiadau a gwella. Bydd y grŵp yn cwrdd ar 29 Tachwedd pryd gaiff

ddiweddariadau cynhwysfawr mewn gofal cymdeithasol ac addysg yn cwmpasu Gwasanaethau Plant. Byddant yn parhau i roi cyngor ar hunanarfarnu, yn arbennig yng ngoleuni'r fframwaith newydd ar wasanaethau addysg llywodraeth leol a bydd yn adolygu trefniadau newydd ar ddiogelu. Byddai'n hapus i roi adroddiad yn ôl i'r Cyng Pavia yn dilyn y cyfarfod nesaf.

Fel atodiad, dywedodd y Cynghorydd Pavia y dylai'r grŵp fod yn cyfarfod unwaith y flwyddyn a dylai gael ei weld i fod yn cwrdd yn gyfnodol ar hyd y flwyddyn. A all yr Aelod Cabinet roi ymrwymiad pellach y bydd cyfarfodydd cyfnodol ar hyd y flwyddyn? Hoffai hefyd wybod beth fyddai'r broses o recriwtio'r person ychwanegol.

**11.2. O'r Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. Greenland**

*Yng nghyswllt grantiau £5,000 i'r Pwyllgor Ardal yng nghyllideb 2017/2018. Mae hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, eto ni chafodd y dyraniadau eu rhyddhau i'w dosbarthu. Mae grwpiau lleol yn manteisio o'r grantiau bach hyn. A fyddwch yn eu rhyddhau cyn gynted ag sy'n bosibl?*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet:

Yn dilyn adolygiad o lywodraethiant cymunedol ym mis Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor i beilota adolygiad o Bwyllgorau Ardal ym Mryn y Cwm. Cynhelir y cynllun peilot dros gyfnod o ddeuddeg mis o fis Medi 2017 a bydd rhan o'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad yng nghyswllt cydlynu strategol ar gyllid Grant Pwyllgor Ardal, i'w ddosbarthu'n gyfartal ymysg yr ardaloedd. Cynigir y caiff cyllid ei ddyrannu ar sail flynyddol, yn amodol ar dystiolaeth ar sut mae'n trin anghenion a blaenoriaethau lleol, yn cynyddu cyfleoedd ac effaith i'r eithaf e.e. defnyddio fel arian cytabeol a chyfrannu at amcanion llesiant y sir.

Yn dilyn cymeradwyo'r cynllun peilot ym mis Hydref 2017, cymeradwyodd y Cabinet ailstrwythuro'r tîm Lle Cyfan a Phartneriaethau i greu Tîm Datblygu Cymunedol a Phartneriaethau gyda ffocws newydd. Fel canlyniad, o gofio am adolygiad y Pwyllgor Ardal a chymeradwyo strwythur yn ddiweddar, cafodd pob Grant Pwyllgor Ardal eu hatal nes datblygir meini prawf newydd yn unol â'r canlyniadau cysylltiedig.

Fodd bynnag, mae Aelodau'n awyddus i fynediad barhau felly yn y cyfamser dylid anfon unrhyw geisiadau am Grant Cyfalaf Pwyllgor Ardal at Andy Smith, ein Rheolwr Buddsoddiad a Chyllid Strategol, fydd yn asesu'r ceisiadau a cheisio canfod ffynonellau eraill o gyllid lle'n briodol. Os na fedrir canfod cyllid arall, yna defnyddir cyllid y Grant Pwyllgor Ardal. Yna gall Aelodau yn y Pwyllgorau Ardal benderfynu p'un ai ydynt yn cefnogi'r cais. Aiff i Andy Smith ar y pwynt hwnnw.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol, awgrymwyd y dylai unrhyw ymgeiswyr blaenorol na chafodd ymateb ail-gyflwyno eu cais.

**11.3. O'r Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. Greenland**

*Ers 2008:*
*1) Faint o dai gafodd a adeiladwyd bob blwyddyn yn Sir Fynwy?*
*2) Faint bob blwyddyn o'r rhain oedd yn gartrefi fforddiadwy?*
*3) Beth oedd y rhestri aros bob blwyddyn dros yr un cyfnod?*

Rhoddodd yr Aelod Cabinet yr wybodaeth ddilynol:

| Blwyddyn | Cyfanswm Anheddau a Gwblhawyd | Anheddau Fforddiadwy a Gwblhawyd | Nifer Aelwydydd ar y Gofrestr Tai Gyfun |
|---|---|---|---|
| 2008/09 | 327 | 91 | 2,528 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2009/10 | 158 | 14 | 3,301 |
| 2010/11 | 267 | 61 | 2,919 |
| 2011/12 | 254 | 78 | 2,721 |
| 2012/13 | 342 | 49 | 2,831 |
| 2013/14 | 230 | 36 | 3,732 |
| 2014/15 | 205 | 17 | 2,867 |
| 2015/16 | 234 | 63 | 2,619 |
| 2016/17 | 238 | 47 | 3,253 (3182 fel ar 01/11/17) |
| Cyfanswm | 2255 | 456 | |

- 2015/16 Band 4 – 36%; Band 5 – 36% Cyfanswm 72%
- 2016/17 Band 4 – 51%; Band 5 – 22% Cyfanswm 73%

Ystyriwyd fod yr aelwydydd ym Mand 4 mewn cartrefi digonol a byddai'r rhan fwyaf o'r aelwydydd ym Mand 5 yn berchnogion cartref. Mae hyn yn gadael dim ond 28% o'r ffigur mewn angen tai gwirioneddol. Os gweithredir hynny i ffigur cofrestr tai gyfun heddiw, y cyfanswm fyddai 3,182 x 28% = 891 aelwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol, dosberthir yr wybodaeth ar ôl ei chasglu.

**11.4. O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir R. John**

*A all yr Aelod Cabinet ddweud os bu unrhyw wahaniaethau rhwng y gwariant tybiannol a'r union wariant ar wariant a ddirprwywyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn (i) 2016/17 (ii) 2015/16 a (iii) 2014/15?*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet:

Mae gennym ddyletswydd gofal i ddiwallu anghenion pob myfyriwr ac rydym yn llawn ddisgwyl i ysgolion wario'r elfen dybiannol o 5% o'u cyllid i gefnogi plant gydag angen lefelau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Lle mae cytundeb fod angen yn uwch na'r lefelau hyn, bydd yr awdurdod lleol yn cyllido i gefnogi myfyrwyr unigol. Dirprwyir £3.3m y flwyddyn i ysgolion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol fel cyfandaliad, a chyllid band ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol yn cadw £300k wrth gefn yn y flwyddyn, a dyma'r unig beth cyfnewidiol. Yn y tair blynedd dan sylw, bu'r cyllid hwnnw'n uwch na lefelau'r gyllideb gan y symiau dilynol: 2014/15 £89,672; 2015/16 £105,404; 2016/17 £129,169. Fodd bynnag yn yr holl flynyddoedd hynny bu tanwariant ar gyllideb y sir sydd wedi mwy na gwrthbwyso'r ffigurau hynny.

.

**11.5. O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir S. Jones**

*Pa asesiad, os oes un, a wnaeth y Cyngor o amledd 'tlodi mislif' yn y sir?*

Croesawodd yr Aelod Cabinet y cwestiwn ac ymatebodd:

Ni chodwyd mater 'tlodi mislif' per se gyda'r Cyngor un ai drwy'r asesiad llesiant na'r asesiad anghenion poblogaeth.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwybod fod y broblem yn bodoli. Ar ôl siarad gyda phartneriaid ac asiantaethau fel y rhai sy'n rhan o grŵp FEDIP (a gaiff ei redeg gan Ian Bakewell), maent wedi awgrymu eu bod yn ymwybodol o'r broblem ond nad ydym o reidrwydd yn gwybod problem pa mor fawr ydyw. Os gweithredwn y data o arolwg Plan International mis Awst, yna

gwyddom y bydd hyn yn broblem yn ein cymunedau gan fod yr adroddiad yn awgrymu fod un mewn deg o ferched 14-24 oed yn methu fforddio cynnyrch sanidol.

Byddwn yn gweithio gyda'n tîm Cymunedol a Phartneriaeth, drwy ein strategaeth cyfiawnder cymdeithasol, i ddynodi datrysiadau partneriaeth a chefnogaeth, yn cynnwys edrych ar arfer gorau fel prosiect Wings ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol, dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gwerthfawrogi oherwydd natur tabw dybiedig y pwnc fod llawer o'r broblem yn debygol o gael ei than-adrodd. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion, gan adeiladu ar y prosiect 'tyfu lan' a gynhelir mewn 21 o'n 30 ysgol gynradd, yn ogystal â thrwy bolisi presennol Llywodraeth Cymru i ymchwilio'r mater ymhellach a rhoi adroddiad yn ôl i'r Cyng Batrouni.

**The meeting ended at 6.50 pm**